



## Capel y Tabernacl, Tachwedd 19eg, 2017



**Mae croeso arbennig i ymwelwyr a ffrindiau sydd wedi ymuno â ni. Arweinir yr oedfa heddiw gan Caroline a Geraint Rees gyda Jane Eryl yn bedyddio. Yn cyfeilio mae Eleri Huws. Helen Prosser sydd yn rhoi sylwebaeth drwy'r ffonau cyfieithu. Gwahoddir pawb i ginio yn Neuadd y Pentref wedi'r oedfa, i gefnogi BanglaCymru.**

Bedyddio Hywel Elis Fudge, Sior Oswald Fudge ac Islwyn Hartley Fudge, brodyr bach Siencyn Jac a meibion Sian Eleri a Darren Fudge



### Y SULIAU NESAF

**Tachwedd 26** – Y Parchg Gethin Rhys gyda Gwerfyl Morse

**Rhagfyr 3ydd – Sul Pentref Creigiau. Ydy pobl Creigiau yn cynllunio?**

**Rhagfyr 10fed** – Y Parchg Aled Edwards gyda Ann Griffiths

**Rhagfyr 17** – Cwrdd Plant yr Ysgol Sul a'r Bobl Ifanc

**Rhagfyr 24** – Cwrdd Nadoligaidd yn y bore ac am 11 y Nos, oedfa pawb i ddod a'i eitem.....

**Noson i Bawb o bob oed gan y Twmiaid Enwau i Heulyn a Catrin**

Noson Gyri Elusenol—Bangla Cymru

**Diddanwch ar y nos gan y Twmiaid**

6.30pm -Nos Fercher, Tachwedd 22

Indiaah, Pontyclun

Oedolyn -£15 Plentyn £10

Pryd o fwyd 3 chwrs. Dewisiadau deietegol cynhwysfawr



### ELUSENNAU 2017

#### CASGLIAD ARBENNIG

Dros fisoedd Tachwedd a Rhagfyr, fe fydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn casglu dillad a dillad isaf yn benodol ar gyfer pobl ifanc 13–16 oed a chanddynt anghenion arbennig ac sy'n derbyn gofal ysbeidiol. Os medrwyh gyfrannu i'r casgliad arbennig hwn, gofynnwn i chi labelu'r bagiau'n glir – **merch/bachgen** ac **oedran** – cyn eu gadael yn y lle arferol yn llofft y capel. Bydd hyn yn osgoi cymysgu gyda'r casgliad ar gyfer Adref.

### TALEBAU NADOLIG

Eleni eto, ar drothwy'r Nadolig, byddwn yn casglu arian ar gyfer talebau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Bydd Gill Rees neu Eleri Jones yn filch iawn i dderbyn eich cyfraniadau.

### PEDAL POWER

Nod Pedal Power ydy cymell a galluogi oedolion a phlant o bob oed a gallu i fwynhau manteision seiclo dan amodau diogel a phleserus. Maen **nhw'n** asesu pobl gydag anghenion arbennig corfforol neu feddyliol er mwyn sicrhau beiciau addas, **sy'n** golygu eu bod yn medru **mwynhau'r** profiad fel pawb arall. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i grwpiau a theuluoedd gael **rhannu'r** un gweithgareddau.

### DEFNYDDIWC H YR AML ENNI BROWN I DDANGOS EICH CEFNOGAETH

**Mae Ann Rees yn gwerthu cardiau Nadolig Cymorth Cristnogol**

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Bydd y Bwrdd yn cwrdd nos Fawrth 21 Tachwedd. Os oes gennych adroddiad pwyllgor neu weithgor neu fater arall i'w godi yn y cyfarfod yna anfonwch air i Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Lun 20 Tachwedd

**Cyfarfod Blynyddol 2017: Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn yr oedfa fore Sul nesaf. Dyw'r cyfarfodydd ddim yn rhai hir – a bydd dim problem i'r rhai fydd yn ymuno y prynhawn hwnnw gyda Chôr yr Eisteddfod!**

## ELUSENNAU 2018

**Mae'n** amser unwaith eto i ni ddewis elusennau ar gyfer yr amlenni brown, er mwyn eu cyflwyno gerbron Cyfarfod Cyffredinol y Capel (uchod) Awgrymiadau o g y dda i: John Llew [johnllewt@hotmail.com](mailto:johnllewt@hotmail.com) neu at Ann Dwynwen [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com)

## Ffair Nadolig y Pentref

Cynhelir y Ffair yn Neuadd y Pentref a Chanolfan y Capel ar Sadwrn 16 Rhagfyr o 10 y bore i 2 y pwnn. Mae Caroline Rees yn apelio am gymorth ar y dydd. Plis cysylltwch ar [carolinerees2@hotmail.com](mailto:carolinerees2@hotmail.com)

**Cofiwch am wybodaeth, ewch at y wefan, [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org) neu Gwilym Huws: 07710 237327 [gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk/) Cyhoeddiadau at [geraintrees@hotmail.com](mailto:geraintrees@hotmail.com)**



Cofiwch y gallwch adael eitemau i'r cartref a dillad i Adref yn llofft y capel. Diolch.

## TOO GOOD TO WASTE a TRACK 2000

Mae'r ddwy elusen yn casglu celfi ac offer addas i'w hail-ddefnyddio o gartrefi pobl RhCT a Chaerdydd

**Pobl Caerdydd:** Mae Track2000 yn cynnig gwasanaeth casglu i drigolion Sir Caerdydd, ond yn codi tâl bychan yn dibynnu ar faint y casgliad. [www.track.2000.org.uk](http://www.track.2000.org.uk)

**Pobl RhCT:** Mae Too Good To Waste yn gwasanaethu RhCT, ar 01443 680090 [www.toogoodtowaste.co.uk](http://www.toogoodtowaste.co.uk)

## BANC BWYD

Bydd criw ohonom yn helpu aelodau Bethel Pontyclun yn y casgliad yn Tesco Tonysguboriau ddiwedd y mis a dechrau Rhagfyr, a **byddai'n** dda pe gallai fwy ddod i'n helpu. **Mae'r cwmni'n** hwyliog **a'r** amser yn hedfan.

**Mae'r** angen am Fanc Bwyd yn cynyddu yn yr ardal, a chasgliadau fel hyn yn help mawr i **ddiwallu'r** angen. Yn ogystal â haelioni cyson y cwsmeriaid, mae **Tesco'n** ychwanegu 1/3 o werth y bwyd.

**Dyma'r** shifftiau sydd ar gael erbyn hyn:

Dydd Iau, Tachwedd 30: 12-2, 2-4

Dydd Gwener, Rhagfyr 1: 12-2, 2-4

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 2: 10-12, 12-2, 2-4

Os gallwch helpu gydag un **o'r** shifftiau hyn cysylltwch ag Ann Davies: [ann.pentyrch@btinternet.com](mailto:ann.pentyrch@btinternet.com) 02920 891344

## Apel Nadolig yr Ysgol Sul

Yn lle Operation Christmas Child, mae'r ysgol Sul yn frwd i ni gefnogi Apêl Santa RhCT i blant lleol anghenus. Gwahoddir chi i ffonio Apel Santa ar 01443 425025 dydd Mawrth i Gwener o 8.30am i 5pm – hyd at Tach 28ain. Cewch enw ac oed plentyn i chi brynu anrheg a'u cyflwyno trwy'r capel neu ebostiwh [CustomerServices@rctcbc.gov.uk](mailto:CustomerServices@rctcbc.gov.uk)